Cynulliad Cenedlaethol Cymru
(Y Cofnod Swyddogol)

The National Assembly for Wales
(The Official Record)

Dydd Mercher 7 Mai 2003
Wednesday 7 May 2003

Cynnwys
Contents

Ethol y Llywydd
Election of the Presiding Officer

Ethol y Dirprwy Lywydd
Election of the Deputy Presiding Officer

Ethol y Prif Weinidog
Election of the First Minister

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynddi yn y Siambr.
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad o'r areithiau hynny.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber.
In the right-hand column, a translation of those speeches has been included.

Cyfarfu'r Cynulliad am 3 p.m. gyda Chlerc y Cynulliad yn y Gadair.
The Assembly met at 3 p.m. with the Clerk to the Assembly in the Chair.

Ethol y Llywydd
Election of the Presiding Officer

Clerc y Cynulliad: Galwaf yr ail Gynulliad i drefn. Llongyfarchiadau i bawb, a chroeso.

The Clerk to the Assembly: I call the second Assembly to order. Congratulations to everyone, and welcome.

I invite nominations for the Presiding Officer under Standing Order No. 1.3.

Gwahoddaf enwebiadau ar gyfer y Llywydd dan Reol Sefydlog Rhif 1.3.

Edwina Hart: I nominate Lord Dafydd Elis-Thomas.

Edwina Hart: Enwebaf yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas.

The Clerk to the Assembly: Is that nomination seconded by a Member of a different political group?

Clerc y Cynulliad: A yw'r enwebiad hwnnw yn cael ei eilio gan Aelod o grwp gwleidyddol gwahanol?

Ieuan Wyn Jones: Eiliaf yr enwebiad hwnnw.

Ieuan Wyn Jones: I second that nomination.

The Clerk to the Assembly: Are there any other nominations? I see that there are none. I therefore propose that Dafydd Elis-Thomas be elected Presiding Officer. There is no opposition to the proposal.

Clerc y Cynulliad: A oes enwebiadau eraill? Gwelaf nad oes. Cynigiaf felly fod Dafydd Elis-Thomas yn cael ei ethol yn Llywydd. Nid oes gwrthwynebiad i'r cynnig.

Llongyfarchaf Dafydd Elis-Thomas felly ar ei ethol a'i wahodd i ddod i'r Gadair. [*Cymeradwyaeth*.]

I therefore congratulate Dafydd Elis-Thomas on his election and invite him to take the Chair. [*Applause*.]

Daeth y Llywydd i'r Gadair am 3.02 p.m.
The Presiding Officer took the Chair at 3.02 p.m.

Y Llywydd: Diolchaf yn garedig i Aelodau'r ail Gynulliad am eu hymddiriedaeth ynof. Mae'n fraint arbennig cael llywyddu'r Cynulliad Cenedlaethol, fel y cofiaf o'r Cynulliad cyntaf.

The Presiding Officer: I warmly thank the Members of the second Assembly for their faith in me. It is an especial privilege to be allowed to preside over the National Assembly, as I recall from the first Assembly.

Mae hefyd yn fraint i mi gael croesawu'r Aelodau newydd i'n plith. Nid wyf am ddweud rhagor; caf gyfle i ddweud digon, ond nid gormod gobeithio, yn ystod yr ail Gynulliad a'r sesiwn sydd i ddod. Diolchaf i chi am eich ymddiriedaeth ynof.

It is also a privilege to be able to welcome new Members to our midst. I will not say any more; I will have the opportunity to say plenty, though not too much hopefully, during the second Assembly and the coming session. Thank you for your faith in me.

Ethol y Dirprwy Lywydd
Election of the Deputy Presiding Officer

Y Llywydd: Gwahoddaf enwebiadau o dan Reol Sefydlog Rhif 1.3.

The Presiding Officer: I invite nominations under Standing Order No. 1.3.

Peter Law: I nominate myself and congratulate you on your appointment, Llywydd.

Peter Law: Yr wyf yn fy enwebu fy hun, ac fe'ch llongyfarchaf ar eich penodiad, Lywydd.

The Presiding Officer: Does a Member from a different political group second the nomination?

Y Llywydd: A oes Aelod o grwp gwleidyddol gwahanol yn eilio'r enwebiad?

Jocelyn Davies: I second that nomination.

Jocelyn Davies: Eiliaf yr enwebiad hwnnw.

Y Llywydd: A oes enwebiadau eraill?

The Presiding Officer: Are there any other nominations?

William Graham: I congratulate you on your re-election, Llywydd. I nominate Dr John Marek.

William Graham: Fe'ch llongyfarchaf ar gael eich ailethol, Lywydd. Enwebaf Dr John Marek.

The Presiding Officer: Does a Member from a different political group second the nomination?

Y Llywydd: A oes Aelod o grwp gwleidyddol gwahanol yn eilio'r enwebiad?

John Marek: I second that nomination.

John Marek: Eiliaf yr enwebiad hwnnw.

The Presiding Officer: Are there any other nominations? I see that there are none. Since there are two nominations, we will proceed to conduct an election by secret ballot.

Y Llywydd: A oes enwebiadau eraill? Gwelaf nad oes. Gan fod gennym ddau enwebiad, fe symudwn ymlaen i gynnal etholiad drwy bleidlais gudd.

Gohiriwyd y Cyfarfod Llawn am 3.07 p.m.
Plenary was suspended at 3.07 p.m.

Ailymgynullodd y Cynulliad am 3.27 p.m.
The Assembly reconvened at 3.27 p.m.

Y Llywydd: Canlyniad y bleidlais, yn nhrefn yr enwebiadau, yw: Peter Law, 29; John Marek, 30. Datganaf felly, o dan Reol Sefydlog Rhif 1.5, fod John Marek wedi ei ethol yn Ddirprwy Lywydd ail Gynulliad Cenedlaethol Cymru. [*Cymeradwyaeth.*]

The Presiding Officer: The result of the vote, in the order of the nominations, is: Peter Law, 29; John Marek, 30. I therefore announce that, under Standing Order No. 1.5, John Marek has been elected Deputy Presiding Officer of the second National Assembly for Wales. [*Applause.*]

The Deputy Presiding Officer: I thank the Assembly for electing me as Deputy Presiding Officer. I also thank my friend, Peter Law. It was a close result and we will remain friends. I assure the Assembly that I will serve it to the best of my ability, with integrity and diligence. Thank you.

Y Dirprwy Lywydd: Diolchaf i'r Cynulliad am fy ethol yn Ddirprwy Lywydd. Diolchaf hefyd i'm cyfaill, Peter Law. Yr oedd y canlyniad yn agos a byddwn yn parhau'n gyfeillion. Yr wyf yn sicrhau'r Cynulliad y byddaf yn ei wasanaethu hyd eithaf fy ngallu, gan weithredu'n onest ac yn ddiwyd. Diolch.

The Presiding Officer: I welcome John Marek as Deputy Presiding Officer and entirely support his remarks about Peter Law. I am grateful to you both for the way in which the election was conducted.

Y Llywydd: Croesawaf John Marek fel Dirprwy Lywydd, a chefnogaf yn llwyr ei sylwadau am Peter Law. Yr wyf yn ddiolchgar i'r ddau ohonoch am y modd y cynhaliwyd yr etholiad.

Ethol y Prif Weinidog
Election of the First Minister

Y Llywydd: Galwaf am enwebiadau ar gyfer swydd Prif Weinidog o dan Reol Sefydlog Rhif 2.2.

The Presiding Officer: I call for nominations for the post of First Minister under Standing Order No. 2.2.

Lynne Neagle: On behalf of the Labour group, I nominate Rhodri Morgan.

Lynne Neagle: Ar ran y grwp Llafur, enwebaf Rhodri Morgan.

Y Llywydd: A oes enwebiadau eraill? Gwelaf nad oes. Gan mai un enwebiad dilys yn unig sydd gennym, cynigiaf, o dan baragraff 3.2 ein Rheol Sefydlog dros dro, gynnal pleidlais i ethol y Prif Weinidog drwy ddangos dwylo.

Cynhaliwyd pleidlais drwy ddangos dwylo.
A vote was held by show of hands.

Y Llywydd: Datganaf felly fod Rhodri Morgan wedi ei ethol yn Brif Weinidog ail Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac fe'i gwahoddaf i annerch y Cynulliad. [*Cymeradwyaeth*.]

The First Minister (Rhodri Morgan): Under the temporary Standing Order agreed by the previous Assembly, the final business for today is for me, as First Minister, to propose a motion to fix a day and time for the next meeting of this Assembly. Later, I will propose that the next meeting be held on Tuesday 13 May at 2 p.m.. Members should be aware that the temporary Standing Order requires a business statement and the election of the House Committee and the Business Committee at that meeting. The meeting can also take, without notice, such business as the Assembly resolves. I will ensure that as much notice as possible is given to Members of the business to be proposed by the Government.

Dywedaf wrth bawb yn y Siambr, a holl bobl Cymru, pa mor ddiolchgar ydwyf bod pobl Cymru, a chi fel Aelodau, wedi ymddiried ynof ac wedi dangos ffydd a hyder ynof i fod yn Brif Weinidog y Cynulliad hwn. Mae bod yn Aelod o'r Cynulliad yn anrhydedd, ac os yw'n bosibl gwella ar hynny, yna cael eich ethol yn Brif Weinidog yw hynny.

This Assembly has created a world record: it is a double symmetry, to which we must give great credit to the wisdom of the Welsh electorate. Not only have they elected an Assembly that has 30 Members on the Government's side and 30 on the opposition side, but they have also elected 30 men and 30 women—perhaps I should rephrase that, and say 30 women and 30 men, as there are 19 women and only 11 men in the Labour group. We understand that it is the only legislature in the world that is perfectly balanced between men and women. We should note that. It is a message that should ring around the world. We are proud of that fact, we have every right to be proud of it, and the people of Wales have every right to be proud of having set that new world record. I

The Presiding Officer: Are there any other nominations? I see that there are none. Since there is only one valid nomination, I propose, under paragraph 3.2 of our temporary Standing Order, to hold a vote to elect the First Minister by show of hands.

The Presiding Officer: I therefore announce that Rhodri Morgan has been elected First Minister of the second National Assembly for Wales and I invite him to address the Assembly. [*Applause*.]

Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan): Dan y Rheol Sefydlog dros dro y cytunwyd arni gan y Cynulliad blaenorol, yr eitem olaf o fusnes heddiw yw i mi, fel Prif Weinidog, gynnig cynnig i bennu dyddiad ac amser ar gyfer cyfarfod nesaf y Cynulliad hwn. Yn ddiweddarach, byddaf yn cynnig y dylid cynnal y cyfarfod nesaf ddydd Mawrth 13 Mai am 2 p.m.. Dylai Aelodau wybod bod y Rheol Sefydlog dros dro yn gofyn am ddatganiad busnes ac ethol Pwyllgor y Ty a'r Pwyllgor Busnes yn y cyfarfod hwnnw. Gall y cyfarfod hefyd drafod unrhyw fusnes y gall y Cynulliad benderfynu arno, a hynny heb rybudd ymlaen llaw. Byddaf yn sicrhau bod Aelodau yn cael cymaint o rybudd ag y bo modd o'r busnes a gynigir gan y Llywodraeth.

I say to everyone in the Chamber, and all the people of Wales, how grateful I am that the people of Wales, and you as Members, have trusted me and placed confidence and faith in me to be the First Minister of this Assembly. To be a Member of the Assembly is an honour, and if it is possible to improve on that, it is by being elected as First Minister.

Mae'r Cynulliad hwn wedi creu record byd: mae gennym gydbwysedd ar ddwy lefel, ac i ddoethineb etholwyr Cymru y mae'r diolch am hynny. Nid yn unig y maent wedi ethol Cynulliad sydd â 30 Aelod o'r Llywodraeth a 30 Aelod o'r gwrthbleidiau, ond y maent hefyd wedi ethol 30 dyn a 30 menyw—efallai y dylwn aralleirio hynny, a dweud 30 menyw a 30 dyn, gan fod 19 menyw a dim ond 11 dyn yn y grwp Llafur. Yr ydym ar ddeall mai dyma'r unig ddeddfwrfa yn y byd sydd â chydbwysedd perffaith rhwng dynion a menywod. Dylem nodi hynny. Mae'n neges y dylid ei lledaenu ledled y byd. Yr ydym yn falch o'r ffaith honno, mae gennym berffaith hawl i fod yn falch ohoni, ac mae gan bobl Cymru berffaith hawl i fod yn falch iddynt greu'r record byd newydd honno. Pan

hope that we will not be the only legislature that is perfectly balanced between men and women in four years' time, when we next face the electorate.

wynebwn yr etholwyr y tro nesaf, ymhen pedair blynedd, gobeithiaf nad ni fydd yr unig ddeddfwrfa lle ceir cydbwysedd perffaith rhwng dynion a menywod.

Yn ail, yr wyf yn awyddus i longyfarch y pleidiau eraill ar eu perfformiad hwythau yn ystod yr etholiad. Yr oedd yn etholiad diddorol a gwresog, er yn danbaid ar adegau. Llongyfarchaf Aelodau'r pleidiau eraill. Nid wyf am siarad am y Blaid Lafur—sef hanner y Cynulliad—yn unig y prynhawn yma, ond am y Cynulliad cyfan a Chymru gyfan.

Secondly, I am keen to congratulate the other parties on their performance in the election. It was an interesting and friendly election, although heated at times. I congratulate Members of the other parties. I am not only talking about the Labour Party—half of the Assembly—this afternoon, but about the whole Assembly and the whole of Wales.

Llongyfarchaf Ieuan Wyn Jones am ennill ei sedd yn Ynys Môn ac am ddychwelyd fel arweinydd yr wrthblaid.

I congratulate Ieuan Wyn Jones on winning his seat in Anglesey and on returning as leader of the opposition.

Ieuan took part in perhaps the healthiest election—in terms of turnout—in the whole of Wales. Over 50 per cent of the electorate turned out, which disproves any idea that distance from the capital city caused low turnout in this election. He defeated the rumbustious Peter Rogers; we shall miss him as, I understand, he missed his Liberal Democrat opponent, although maybe not by much. [*Laughter.*]

Mae'n debyg i Ieuan fod yn rhan o'r etholiad mwyaf llewyrchus—o ran nifer y rhai a bleidleisiodd—yng Nghymru gyfan. Bu i fwy na 50 y cant o'r etholwyr fwrw pleidlais, ac mae hynny'n gwrthbrofi unrhyw awgrym mai pellter o'r brifddinas sydd i gyfrif am nifer isel y pleidleiswyr yn yr etholiad hwn. Trechodd yr ymgeisydd lliwgar, Peter Rogers; byddwn yn ei fethu, fel y deallaf y bu iddo ef fethu y Democrat Rhyddfrydol a oedd yn sefyll yn ei erbyn, er ei fod yn agos iawn. [*Chwerthin.*]

Nick Bourne and the Welsh Conservatives also ran a remarkably successful campaign. They got their vote out perhaps more than the other three parties. That is why they have additional Members—some of whom are women. That is a breakthrough for the Conservatives, bringing them in line with the rest of the Assembly. Without the two new women in the Conservative group, we could not have set the new world record for women's representation. We look forward to Conservative opposition and scrutiny, as we do to opposition from the other parties.

Bu ymgyrch Nick Bourne a Cheidwadwyr Cymru hefyd yn un hynod lwyddiannus. Mae'n debyg i'r blaid fod yn fwy llwyddiannus na'r tair plaid arall wrth berswadio eu cefnogwyr i bleidleisio. Dyna pam mae ganddynt Aelodau ychwanegol—y mae rhai ohonynt yn fenywod. Mae hynny'n torri tir newydd i'r Ceidwadwyr, a bellach maent yn yr un sefyllfa â gweddill y Cynulliad. Heb y ddwy fenyw newydd yng ngrwp y Ceidwadwyr, ni fyddem wedi gallu creu'r record byd newydd ar gyfer cynrychiolaeth o blith menywod. Edrychwn ymlaen at weld y Ceidwadwyr yn ymgymryd â rôl o wrthwynebu a chraffu, fel yr edrychwn ymlaen at wrthwynebiad y pleidiau eraill.

Mike German was his party group's leader in 1999, and is the only one who remains in that position. His group has not moved forward, backwards or sideways; it is exactly the same group as was elected in 1999. It has brought an element of unique stability among the four party groups.

Mike German oedd arweinydd grwp ei blaid yn 1999, ac ef yw'r unig un sydd yn y sefyllfa honno o hyd. Nid yw ei grwp wedi ennill mwy o seddau nac wedi colli tir; yr un grwp yn union ydyw â'r un a etholwyd yn 1999. Mae hynny wedi creu sefydlogrwydd sy'n unigryw ymhlith y pedwar grwp plaid.

As we now have 30 Members, we will—to put it crudely—go it alone and not proceed with a coalition Government. I have spoken to Mike about that and he understands the circumstances. There was a swing towards Labour, and we have always maintained that if we were given the tools to do the job, we would do it as a Labour administration. That is new to the Assembly. We have had a minority Government and a coalition Government, but not a majority administration. While accepting that we do not technically have a majority, we believe that we have the confidence of the people of Wales and that we have been endorsed by the swing towards Labour—giving us 30 Members—to enable us to proceed over the next four years.

Gan fod gennym 30 Aelod yn awr, byddwn yn llywodraethu ar ein pen ein hun ac ni fydd Llywodraeth glymblaid. Yr wyf wedi trafod hynny â Mike ac mae'n deall yr amgylchiadau. Bu tuedd tuag at Lafur, ac yr ydym wedi dweud erioed y byddem yn llywodraethu fel gweinyddiaeth Lafur pe caem y modd i wneud hynny. Mae hynny'n beth newydd i'r Cynulliad. Yr ydym wedi cael Llywodraeth leiafrifol a Llywodraeth glymblaid, ond ni chawsom weinyddiaeth â mwyafrif. Er y derbyniwn nad oes gennym fwyafrif yn dechnegol, credwn fod gennym hyder pobl Cymru ac i'r duedd tuag at Lafur—a roddodd 30 Aelod inni—gadarnhau ein gallu i arwain dros y pedair blynedd nesaf.

I hope to announce my Cabinet soon but, unfortunately, it will not happen this afternoon. A small country like Wales can be delightfully intimate. Last night I was at home, closeted with my closest advisers, working on the shape of the future Cabinet and, as one does in those circumstances, I sent out for two take-away pizzas from Penarth. They arrived and, when I went outside to pay for them, the delivery man took my money and asked, 'How are you getting on with choosing your Cabinet, then?' I was staggered by this, and asked him 'How do you know?' He answered 'It was on the telly, just now.' It made me realise that there are merits to the intimacy of a small country like Wales, as one of the purposes of devolution is to bring government closer to the people. However, I did not know that it would be that close. [*Laughter*.] I am close to finalising the Cabinet and hope to make an announcement tomorrow. It will be a Labour Cabinet. We will, however, govern in the interests of all parts of Wales and all the people of Wales.

Gobeithiaf gyhoeddi fy Nghabinet yn fuan ond, yn anffodus, ni fyddaf yn gwneud hynny y prynhawn yma. Gall gwlad fach fel Cymru fod yn hyfryd o agos-atoch. Yr oeddwn gartref neithiwr, gyda'm hymgynghorwyr agosaf, yn trafod ffurf y Cabinet newydd ac, fel yr ydych yn tueddu i wneud dan y fath amgylchiadau, archebais ddau bizza o Benarth. Fe ddaeth y bwyd a, phan es i allan i dalu, cymerodd y gwr fy arian a gofyn, 'Sut hwyl ydych chi'n ei gael ar ddewis eich Cabinet felly?' Cefais fy synnu gan hyn, a gofynnais iddo, 'Sut ydych chi'n gwybod?' Atebodd gan ddweud 'Fe'i gwelais ar y teledu.' Gwnaeth hynny imi sylweddoli fod manteision i agosatrwydd gwlad fach fel Cymru, gan mai un o amcanion datganoli yw dod â llywodraeth yn agosach at y bobl. Fodd bynnag, ni wyddwn y byddai mor agos â hynny. [*Chwerthin.*] Yr wyf ar fin dod i benderfyniad terfynol ar y Cabinet a gobeithiaf wneud cyhoeddiad yfory. Cabinet Llafur fydd y Cabinet. Byddwn, fodd bynnag, yn llywodraethu er lles pob rhan o Gymru a phawb sy'n byw yng Nghymru.

I will end by commenting on democratic participation, since many others have done so. It would be easy to be complacent. We could say that we achieved two thirds of the general-election turnout with perhaps one twentieth of the media coverage during the run-up to the general election in 2001. At that general election, turnout was 59 per cent; turnout in our election was 38 per cent. However, to say that would be to be too complacent. We could also say that we are around 8 to 10 per cent ahead of the level of participation in the last United States Congress elections. However, although true, to say that would also be to be complacent. We perhaps need to ask the Electoral Commission to study, if it is not already doing so, why

I gloi, yr wyf am wneud sylw am y broses ddemocrataidd, gan fod sawl un arall wedi gwneud hynny. Byddai'n hawdd inni fod yn hunanfodlon. Gallem ddweud ein bod wedi llwyddo i sicrhau dwy ran o dair o'r nifer a bleidleisiodd yn yr etholiad cyffredinol gydag efallai ugeinfed rhan o'r sylw yn y cyfryngau yn ystod y cyfnod cyn etholiad cyffredinol 2001. Yn yr etholiad cyffredinol hwnnw, pleidleisiodd 59 y cant o'r etholwyr; 38 y cant a bleidleisiodd yn ein hetholiad ni. Fodd bynnag, drwy ddweud hynny, byddem yn cyfleu agwedd rhy hunanfodlon. Gallem ddweud hefyd fod rhwng 8 a 10 y cant yn fwy wedi cymryd rhan nag a gymerodd ran yn etholiadau diwethaf Cyngres yr Unol Daleithiau. Fodd bynnag, er

participation fell from 46 per cent in 1999—not a high figure in itself—to 38 per cent this year. For instance, we need to know why there was the extraordinary variation in turnout across north Wales: from 24.9 per cent in Carl Sargeant's constituency of Alyn and Deeside, to, I think, 50.1 per cent in Ieuan Wyn Jones's constituency of Ynys Môn. We need to know who is not voting and why, and who decided to vote. I am sure that we all want to co-operate with any study that the Electoral Commission might want to carry out. It is its kind of job. It is not a job in which politicians should interfere too closely until they know what the Electoral Commission thinks.

bod hynny'n wir, byddem unwaith eto yn cyfleu agwedd hunanfodlon drwy ddweud hynny. Efallai fod angen inni ofyn i'r Comisiwn Etholiadol ystyried, os nad yw'n gwneud hynny eisoes, y rheswm pam mae'r nifer a gymerodd ran wedi gostwng o 46 y cant yn 1999—nad ydyw hwnnw'n ffigur uchel ynddo'i hun—i 38 y cant eleni. Er enghraifft, mae angen inni wybod pam yr oedd amrywiaeth anhygoel yn y niferoedd a bleidleisiodd ar draws gogledd Cymru: rhwng 24.9 y cant yn Alun a Glannau Dyfrdwy, sef etholaeth Carl Sargeant, a 50.1 y cant, credaf, yn etholaeth Ieuan Wyn Jones, sef Ynys Môn. Mae angen inni wybod pwy a beidiodd â phleidleisio a pham, a phwy a benderfynodd bleidleisio. Yr wyf yn siwr ein bod oll eisiau cydweithredu ag unrhyw astudiaeth y gallai'r Comisiwn Etholiadol fod am ei gynnal. Dyna'r math o waith y mae'n ei wneud. Nid yw'n waith i wleidyddion ymyrryd yn rhy ddwfn ynddo nes y gwyddant beth yw barn y Comisiwn Etholiadol.

Over the past 17 days of the election campaign, when I came home late at night with the adrenalin flowing and did not think it wise to go to bed immediately as my heart was beating too fast, my two companions while unwinding were Mark Williams's snooker and R. S. Thomas's poetry. I do not believe in saying that turnout was terrible and therefore that we have failed or that Wales has failed. I do not believe in Celtic self-flagellation. The great master of that is R.S. Thomas, with his famous lines about

Dros 17 diwrnod diwethaf yr ymgyrch etholiadol, pan fyddwn yn dychwelyd adref yn hwyr yn y nos gyda'r adrenalin yn llifo ac yn credu nad oedd yn ddoeth imi fynd i'r gwely'n syth gan fod fy nghalon yn curo'n rhy gyflym, fy nau gydymaith wrth imi ymlacio oedd snwcer Mark Williams a barddoniaeth R.S. Thomas. Ni chredaf mewn dweud bod y niferoedd â bleidleisiodd yn ofnadwy ac o ganlyniad ein bod wedi methu neu bod Cymru wedi methu. Nid wyf yn credu mewn hunan-fflangellu Celtaidd. Y meistr mawr o ran gwneud hynny yw R.S. Thomas, yn ei linell enwog am

'an impotent people… worrying the carcase of an old song'.

bobl ddiymadferth… yn poenydio ysgerbwd hen gân.

Whenever I read that, Mark Williams would win another match and I would think that R.S. Thomas was talking rubbish. It is important for us to be proud of what we do and for us to pass that pride on to the people of Wales, our potential electors, especially young people, who only voted to a limited degree. There are many reasons to be proud of our new institution but never to be complacent. There are always reasons to work harder and much of the relationship between the people of Wales and the National Assembly depends upon how we conduct ourselves during the next four years. I pledge myself, and my group pledges itself, to the service of the people of Wales. I am sure that I speak for the whole Assembly in saying that we pledge ourselves to the service of the 3 million people who live in Wales. [*Applause*.]

Pryd bynnag y byddwn yn darllen y llinell honno, byddai Mark Williams yn ennill gêm arall a byddwn yn credu bod R.S. Thomas yn siarad lol. Mae'n bwysig ein bod yn falch o'r hyn a wnawn a'n bod yn trosglwyddo'r balchder hwnnw i bobl Cymru, ein darpar etholwyr, yn enwedig yr ifanc: dim ond ychydig ohonynt wnaeth bleidleisio. Mae sawl rheswm dros fod yn falch o'n sefydliad newydd ond ni ddylem fyth fod yn hunanfodlon. Mae rhesymau bob amser dros weithio'n galetach ac mae rhan fawr o'r berthynas rhwng pobl Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol yn dibynnu ar sut y byddwn yn ymddwyn yn ystod y pedair blynedd nesaf. Yr wyf fi, â'm grwp, yn addo gwasanaethu pobl Cymru. Yr wyf yn siwr fy mod yn siarad ar ran y Cynulliad cyfan pan ddywedaf ein bod yn addo gweithio er budd y 3 miliwn sy'n byw yng Nghymru. [*Cymeradwyaeth*.]

I close by formally proposing that

the National Assembly next meets on Tuesday, 13 May at 2 p.m..

Arweinydd yr Wrthblaid (Ieuan Wyn Jones): Lywydd, yr wyf yn eich llongyfarch yn wresog ar eich ailbenodiad yn yr ail Gynulliad. Llongyfarchaf hefyd John Marek ar ei benodi yn Ddirprwy Lywydd. Dymunaf yn dda i'r ddau ohonoch wrth sicrhau bod gweithgareddau'r Cynulliad yn rhedeg mor esmwyth ag y bo modd, ac ategaf y sylwadau a wnaed ynglyn â Peter Law a'r ffordd y cynhaliwyd yr etholiad. Yr wyf yn llongyfarch Rhodri Morgan ar ei ailethol yn Brif Weinidog ac yn llongyfarch ei blaid ar ei chanlyniad yn yr etholiad. Edrychaf ymlaen at glywed rhaglen y Llywodraeth newydd gan y byddwn, fel prif wrthblaid, yn edrych yn ofalus arni. Fel yr awgrymodd y Prif Weinidog, edrychwn ar y rhaglen o safbwynt lles pobl Cymru, i sicrhau bod Llywodraeth newydd y Cynulliad yn gwneud ei gorau i gyflawni drostynt. Dof yn ôl at hynny yn y man.

Llongyfarchaf hefyd y pleidiau eraill ar eu perfformiad yn yr etholiad, a chroesawaf yn gynnes yr Aelodau newydd. Mae'r rheini ohonom a etholwyd i'r Cynulliad am yr eildro wedi teimlo'r fraint aruthrol o gael bod yn Aelodau o'r Cynulliad cyntaf. Yr oeddem yn sylweddoli, wrth gyfarfod bedair blynedd yn ôl, ein bod i gyd yn rhan o'r prosiect o greu sefydliad newydd. Hyderaf y byddwn ni, yn Aelodau sydd wedi eu hailethol ac yn Aelodau newydd, yn sicrhau y daw'r Cynulliad yn fforwm i bobl Cymru mewn ffordd na lwyddasom efallai i'w wneud yn y Cynulliad cyntaf. Bydd fy mhlaid yn chwarae ei rhan drwy sicrhau ein bod yn trafod y pynciau sydd yn bwysig i bobl Cymru, beth bynnag fo'r pynciau hynny. Chwaraewn ein rhan wrth graffu ar y Llywodraeth, a barnu'r Llywodraeth pan fo angen, ond byddwn hefyd yn cynnig ein hatebion ein hunain ar y ffordd ymlaen.

Terfynaf drwy gynnig yn ffurfiol

bod y Cynulliad Cenedlaethol yn cwrdd nesaf ddydd Mawrth, 13 Mai am 2 p.m..

The Leader of the Opposition (Ieuan Wyn Jones): Presiding Officer, I warmly congratulate you on your re-appointment as Presiding Officer in the second Assembly. I also congratulate John Marek on his appointment as Deputy Presiding Officer. I wish you both well in ensuring that the Assembly's proceedings run as smoothly as possible, and I endorse the remarks made about Peter Law and the way in which the election was conducted. I congratulate Rhodri Morgan on being re-elected as First Minister and I congratulate his party on its election result. I look forward to hearing the new Government's programme because, as the main opposition party, we will consider it carefully. As the First Minister suggested, we will consider the programme from the point of view of what is best for the people of Wales, to ensure that the new Assembly Government does its best to deliver for them. I will come back to that shortly.

I also congratulate the other parties on their electoral performance and warmly welcome the new Members. Those of us who have been elected to the Assembly for the second time have felt the tremendous privilege of having been Members of the first Assembly. We realised, when we met four years ago, that we were all part of the project of creating a new institution. I am confident that we, as re-elected and new Members, will ensure that the Assembly becomes a forum for the people of Wales in a way that we did not perhaps succeed in doing in the first Assembly. My party will play its part by ensuring that we discuss the issues that are important to the people of Wales, whatever those issues might be. We will play our part in scrutinising the Government, and criticising it when necessary, but we will also provide our own answers on the way forward.

Felly, wedi inni drafod y materion gweithdrefnol y mae'n rhaid delio â hwy—a deallaf fod llawer o bethau felly, megis dirprwyo cyfrifoldebau ac ati—awgrymaf fod y Prif Weinidog a'i Lywodraeth, fel blaenoriaeth gyntaf, yn ystyried cynnal dadl ar ei rhaglen fel ein bod ni, yn genedl, yn Gynulliad ac yn wrthbleidiau, yn cael cyfle i gael trafodaeth eang ar bolisïau'r Llywodraeth. Credaf y byddai hynny yn rhoi cyfle inni, yn nhymor cyntaf yr ail Gynulliad, wybod i ba gyfeiriad yn union y bydd pethau yn mynd. Gwn mai mater i drefnyddion busnes y pleidiau yw trafod hynny, ond apeliaf ar y Prif Weinidog i sicrhau y bydd hynny'n digwydd.

Therefore, once we have discussed the procedural matters that we must deal with—and I understand that there are many such matters, such as the delegation of responsibilities and so on—I suggest that the First Minister and his Government consider, as its first priority, holding a debate on its programme so that we, as a nation, as an Assembly and as opposition parties, have the opportunity to have a broad discussion on Government policies. I believe that that would give us an opportunity, in the first term of the second Assembly, to know exactly in what direction matters will progress. I know that that is a matter for the party business managers to discuss, but I appeal to the First Minister to ensure that that happens.

I appreciate the experience that those of us who have been re-elected to the Assembly have of the first Assembly. It was a great privilege to be the first Members of the first National Assembly for Wales. In the second Assembly, we have a greater responsibility. The First Minister commented on the low turnout in the election. Many will want to participate in considering why that was the case. The turnout was substantially lower than in the first Assembly election. One could argue that the first flush of devolution was a factor in the original turnout, which was not the case in the second election. However, this institution must respond to the needs and aspirations of the people of Wales during this second Assembly if we are to make it work properly for them.

Gwerthrawrogaf y profiad o'r Cynulliad cyntaf sydd gan y rheini ohonom a ailetholwyd i'r Cynulliad. Yr oedd yn anrhydedd mawr bod yn Aelodau cyntaf Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae gennym fwy o gyfrifoldeb yn yr ail Gynulliad. Soniodd y Prif Weinidog am y niferoedd isel a bleidleisiodd yn yr etholiad. Bydd llawer am gymryd rhan wrth ystyried pam ddigwyddodd hynny. Yr oedd y niferoedd a bleidleisiodd yn sylweddol is nag yn etholiad cyntaf y Cynulliad. Gellid dadlau bod cyffro cychwynnol datganoli yn ffactor o ran y niferoedd a bleidleisiodd y tro cyntaf ac nad oedd hynny'n wir yn yr ail etholiad. Fodd bynnag, rhaid i'r sefydliad hwn ymateb i anghenion a dyheadau pobl Cymru yn ystod yr ail Gynulliad os ydym am sicrhau ei fod yn gweithredu'n iawn drostynt.

Finally, the First Minister commented on the Richard commission, which, perhaps I did not expect. Plaid Cymru wants to closely examine ways of making the Assembly work for the people of Wales, which, in our view, did not happen during the first Assembly. During this Assembly, we will raise issues around the Assembly's powers.

Yn olaf, soniodd y Prif Weinidog am gomisiwn Richard; efallai nad oeddwn yn disgwyl hynny. Mae Plaid Cymru am ystyried yn fanwl ffyrdd o wneud i'r Cynulliad weithio dros bobl Cymru, na ddigwyddodd, yn ein barn ni, yn ystod y Cynulliad cyntaf. Yn ystod y Cynulliad hwn, byddwn yn codi materion sy'n ymwneud â phwerau'r Cynulliad.

Nid wyf am ddweud mwy na hynny heddiw. Gobeithiaf y bydd modd cynnal dadl ar raglen y Llywodraeth, ac y gallwn fynd ati o ddifrif i weithredu, fel Cynulliad, er lles ac er budd pobl Cymru.

I do not want to say more than that today. I hope that we can hold a debate on the Government's programme, and that, as an Assembly, we can seriously set about working for the wellbeing and benefit of the people of Wales.

The Leader of the Welsh Conservatives (Nick Bourne): I will not indulge in a long speech today but I offer congratulations to you, Presiding Officer, and to John Marek on your re-election. The fact that the election for the post of Deputy Presiding Officer was so tight says something about the standard of the candidates. Peter Law commands support across the Chamber and, in that sense, I am pleased that the vote was so close.

On behalf of my group, I welcome the new Members. I hope that they will be as happy in the Assembly as I have been over the last four years, and I look forward to their contributions. I offer personal congratulations to the First Minister, who gave a gracious speech today. I am pleased that we can take credit for having two women Members elected as part of our group, and for contributing to the Assembly's success in its representation of women. I am sure that this will roll forward. I also offer congratulations to the leader of Plaid Cymru for his fine speech today, given the circumstances. You should be congratulated on that, Ieuan; it cannot have been easy. Rhodri said that—and I do not believe that it was with tongue in cheek—Mike German's group offered unique stability, which is true. I offer congratulations to Mike German on his campaign and for returning his team to the Assembly.

I share the First Minister's concerns about turnout. It is worrying, but that is true across the United Kingdom and the western world; low turnout is not limited to Wales. As people have died to get the vote, I believe that it is almost a democratic duty to vote, and I am deeply concerned that people have not turned out in these elections. In some areas—Alyn and Deeside and Delyn in particular—many people stayed at home; that should be examined by the Electoral Commission. I am sure that an inquiry into low turnout would receive cross-party support. However, let us not indulge in self-flagellation as this is not limited to Wales; it is true across the United Kingdom and the western world, and it was true up to a point in the general election.

Arweinydd Ceidwadwyr Cymru (Nick Bourne): Nid ymrof i araith hir heddiw, ond fe'ch llongyfarchaf chi, Lywydd, a John Marek ar eich ail ethol. Mae'r ffaith i'r etholiad ar gyfer swydd y Dirprwy Lywydd fod mor agos yn dweud rhywbeth am safon yr ymgeiswyr. Mae Peter Law yn hawlio cefnogaeth ar draws y Siambr ac, ar yr olwg honno, yr wyf yn falch i'r bleidlais fod mor agos.

Ar ran fy ngrwp, croesawaf yr Aelodau newydd. Gobeithiaf y byddant yr un mor hapus yn y Cynulliad ag y bûm i dros y pedair blynedd diwethaf, ac edrychaf ymlaen at eu cyfraniadau. Llongyfarchaf y Prif Weinidog yn bersonol; traddododd araith rasol heddiw. Yr wyf yn falch y gallwn dderbyn y clod am gael dau Aelod benywaidd wedi eu hethol yn rhan o'n grwp, ac am gyfrannu at lwyddiant y Cynulliad wrth gynrychioli menywod. Yr wyf yn siwr y bydd hyn yn datblygu. Llongyfarchaf hefyd arweinydd Plaid Cymru am ei araith dda heddiw, o gofio'r amgylchiadau. Dylech gael eich llongyfarch am hynny, Ieuan; mae'n rhaid nad oedd yn hawdd. Dywedodd Rhodri—ac ni chredaf fod hynny a'i dafod yn ei foch—fod grwp Mike German yn cynnig sefydlogrwydd unigryw, sydd yn wir. Llongyfarchaf Mike German ar ei ymgyrch ac ar ddychwelyd ei dîm i'r Cynulliad.

Rhannaf bryderon y Prif Weinidog am y niferoedd isel a bleidleisiodd. Mae'n achos pryder, ond mae hynny'n wir ar draws y Deyrnas Unedig a'r byd gorllewinol; ni chyfyngir niferoedd isel yn pleidleisio i Gymru. Gan fod pobl wedi marw i gael y bleidlais, credaf ei bod bron yn ddyletswydd democrataidd i bleidleisio, ac mae'n fy mhryderu'n fawr nad aeth pobl i bleidleisio yn yr etholiad hwn. Mewn rhai ardaloedd—Alun a Glannau Dyfrdwy a Delyn yn enwedig—arhosodd llawer o bobl gartref; dylai'r Comisiwn Etholiadaol ymchwilio i hynny. Yr wyf yn siwr y byddai ymchwiliad i pam y bu'r niferoedd a bleidleisiodd mor isel yn derbyn cefnogaeth drawsbleidiol. Fodd bynnag, gadewch i ni beidio ag ymroi i hunan fflangellu gan nas chyfyngir hyn i Gymru; mae'n wir ar draws y Deyrnas Unedig a'r byd gorllewinol, ac yr oedd yn wir i ryw raddau yn yr etholiad cyffredinol.

Our group looks forward to a period of constructive opposition as we disagree with most of the Government's programme. I can assure you that it will be constructive opposition, as it has been over the previous four years. Robust opposition is important in the Chamber and we will continue to offer it. However, in the meantime, I offer personal congratulations to the First Minister and we look forward to the battles ahead.

Mae ein grwp yn edrych ymlaen at gyfnod o wrthwynebu adeiladol, gan ein bod yn anghytuno â'r rhan fwyaf o raglen y Llywodraeth. Gallaf eich sicrhau y bydd yn wrthwynebiad adeiladol, fel y bu ar hyd y pedair blynedd diwethaf. Mae gwrthwynebiad cadarn yn bwysig yn y Siambr a pharhawn i'w gynnig. Fodd bynnag, yn y cyfamser, llongyfarchaf y Prif Weinidog yn bersonol, ac edrychwn ymlaen at y brwydrau sydd o'n blaenau.

The Leader of the Welsh Liberal Democrat Group (Michael German): I also offer our congratulations to you, Presiding Officer, to the Deputy Presiding Officer, and to the new Members on their election. It is a great privilege, as many of us know from the first Assembly, to be elected to the National Assembly for Wales, and we should all respect that. The experience that we have gathered over the last four years should see us into the future and should, increasingly, place us in a strong light in the eyes of the people of Wales.

Arweinydd Grwp Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Michael German): Cynigiaf innau hefyd ein llongyfarchiadau i chi, Lywydd, i'r Dirprwy Lywydd, ac i'r Aelodau newydd am iddynt gael eu hethol. Mae'n fraint o'r radd flaenaf, fel y gwyr llawer ohonom o'r Cynulliad cyntaf, gael eich hethol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, a dylem oll barchu hynny. Dylai'r profiad a gawsom dros y pedair blynedd diwethaf ein cynorthwyo i'r dyfodol a dylai, yn gynyddol, ein gosod mewn goleuni da yn llygaid pobl Cymru.

The Welsh Liberal Democrats wish the First Minister a fair wind. You won more votes and more seats in the Chamber than any other party and, as such, you have won the right to head the new Welsh Assembly Government. As you said, you do not have a majority and you need no reminding of how tight it will be for you and for your party—today's vote demonstrated that. You know only too well the dangers that instability can bring, but it is in no-one's interest to manufacture instability.

Dymuna Democratiaid Rhyddfrydol Cymru rwydd hynt i'r Prif Weinidog. Bu ichi ennill mwy o bleidleisiau a mwy o seddau yn y Siambr na'r un blaid arall ac felly bu ichi ennill yr hawl i arwain Llywodraeth newydd Cynulliad Cymru. Fel y dywedasoch, nid oes gennych fwyafrif ac nid oes angen eich atgoffa pa mor dynn y bydd hi arnoch chi a'ch plaid—tystiodd pleidlais heddiw i hynny. Gwyddoch yn dda pa beryglon y gall ansefydlogrwydd eu magu, ond ni fydd creu ansefydlogrwydd o fudd i unrhyw un.

We are all aware that too many people in Wales have yet to share our enthusiasm for the youthful institution of the National Assembly for Wales. I am grateful that you raised the issue of turnout. Enthusiasm is of great relevance to the fall in turnout that we experienced, depressingly, in the elections. There has been much speculation and debate about the causes of such a low turnout, much of which has focused on the location of polling stations and on the mechanics of voting. I am not saying that those are unimportant issues; we should not fear change if it could increase the number of people who turn out to vote. However, we will be missing the point if that is all that we focus upon. After all, the way that we vote and where we vote cannot explain why turnout is falling. We must look to ourselves—to our conduct and to the values that we promote—and, particularly, to young people. It has always struck me as being strange that, under the national curriculum, we educate young people in a raft

Yr ydym oll yn ymwybodol bod gormod o bobl yng Nghymru nad ydynt eto yn rhannu ein brwdfrydedd dros sefydliad ieuanc Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Yr wyf yn falch ichi gyfeirio at y niferoedd a bleidleisiodd. Mae brwdfrydedd o bwys mawr i'r cwymp digalon a welwyd yn y niferoedd a bleidleisiodd yn yr etholiad. Bu llawer o ddyfalu a thrafod ynglyn â'r hyn a barodd fod niferoedd hynod o isel wedi pleidleisio, gyda llawer ohono'n canolbwyntio ar leoliad y gorsafoedd pleidleisio ac ar fecanwaith pleidleisio. Nid wyf yn dweud nad yw'r rhain yn faterion pwysig; ni ddylem ofni newid pe byddai'r newid hwnnw yn gallu cynyddu nifer y bobl sy'n pleidleisio. Fodd bynnag, byddwn yn gwneud camgymeriad os canolbwyntiwn ar hynny yn unig. Wedi'r cyfan, ni all y modd y pleidleisiwn a'r mannau y pleidleisiwn ynddynt esbonio'r gostyngiad yn y niferoedd sy'n pleidleisio. Rhaid inni droi i edrych arnom ni ein hunain—ar ein hymddygiad ac ar y

of items, yet we do not explain fundamental issues such as the value of the vote and what it can bring. Perhaps we should look to our young people if we want to make changes.

gwerthoedd a hybwn—ac, yn enwedig, ar bobl ifanc. Mae wedi fy nharo yn rhyfedd erioed ein bod, drwy'r cwricwlwm cenedlaethol, yn addysgu pobl ifanc mewn llu o bynciau, ac eto nid ydym yn esbonio materion sylfaenol fel gwerth pleidlais a'r hyn y gall ei gynnig. Efallai y dylem ystyried pobl ifanc os ydym am gyflwyno newidiadau.

The second issue that I will mention—Ieuan reflected upon this in his speech—is the future of this institution. Our future will be determined, in part, by the recommendations of the Richard commission. Some have remained silent on this matter and are still to make their views heard. However, this will give us an opportunity to reflect upon what has happened in the past and to further develop this institution in the eyes of the people of Wales. If we are to create the enthusiasm that brings people out to vote, it must be an enthusiasm for this institution in its own right.

Yr ail fater yr wyf am ei drafod—a soniodd Ieuan am hyn yn ei araith ef—yw dyfodol y sefydliad hwn. Pennir ein dyfodol, i raddau, gan argymhellion comisiwn Richard. Mae rhai pobl wedi cadw'n dawel ynglyn â'r mater hwn ac nid ydynt eto wedi datgan eu barn. Fodd bynnag, rhydd hyn gyfle i ni fyfyrio ar yr hyn a ddigwyddodd yn y gorffennol a datblygu'r sefydliad hwn ymhellach yn llygaid pobl Cymru. Os ydym am greu'r math o frwdfrydedd a fydd yn denu pobl i bleidleisio, rhaid iddo fod yn frwdfrydedd dros y sefydliad hwn ei hun.

Rhodri knows that we will support some proposals that will come before us. Equally, we will not support other proposals put forward during the election campaign. We will provide constructive opposition, according to our genuine beliefs. That will, I hope, provide an opportunity for the people of Wales to regain the necessary enthusiasm not just to vote, but for this national institution.

Gwyr Rhodri y byddwn yn cefnogi rhai o'r cynigion a ddaw ger ein bron. Yn yr un modd, ni fyddwn yn cefnogi rhai cynigion eraill a gyflwynwyd yn ystod yr ymgyrch etholiadol. Byddwn yn darparu gwrthwynebiad adeiladol, yn unol â'n gwir gredoau. Gobeithiaf y bydd hynny yn rhoi cyfle i bobl Cymru adennill y brwdfrydedd angenrheidiol nid yn unig i bleidleisio, ond ar gyfer y sefydliad cenedlaethol hwn.

Cynhaliwyd pleidlais drwy ddangos dwylo.
A vote was held by show of hands.

Y Llywydd: Mae'r cynnig wedi'i dderbyn, felly cynhelir y Cyfarfod Llawn nesaf ddydd Mawrth, 13 Mai am 2 p.m.. Daw hynny â Chyfarfod Llawn cyntaf yr ail Gynulliad Cenedlaethol i ben.

The Presiding Officer: The motion has been carried, so the next Plenary will be held on Tuesday, 13 May at 2 p.m.. That brings the proceedings of the first Plenary of the second National Assembly to a close.

Daeth y cyfarfod i ben am 4.03 p.m.
The meeting ended at 4.03 p.m.

Aelodau a'u Pleidiau
Members and their Parties

Andrews, Leighton (Llafur – Labour)
Barrett, Lorraine (Llafur – Labour)
Bates, Mick (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Black, Peter (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Bourne, Nick (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
Burnham, Eleanor (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Butler, Rosemary (Llafur – Labour)
Cairns, Alun (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
Chapman, Christine (Llafur – Labour)
Cuthbert, Jeff (Llafur – Labour)
Davidson, Jane (Llafur – Labour)
Davies, Andrew (Llafur – Labour)
Davies, David (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
Davies, Glyn (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)

Davies, Janet (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Davies, Jocelyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Dunwoody-Kneafsey, Tamsin (Llafur - Labour)
Elis-Thomas, Dafydd (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Essex, Sue (Llafur – Labour)
Francis, Lisa (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
German, Michael (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Graham, William (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
Gregory, Janice (Llafur – Labour)
Griffiths, John (Llafur – Labour)
Gibbons, Brian (Llafur – Labour)
Gwyther, Christine (Llafur – Labour)
Hart, Edwina (Llafur – Labour)
Hutt, Jane (Llafur – Labour)
Idris Jones, Denise (Llafur – Labour)
Isherwood, Mark (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
James, Irene (Llafur – Labour)
Jones, Alun Ffred (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Ann (Llafur – Labour)
Jones, Carwyn (Llafur – Labour)
Jones, Elin (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Helen Mary (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Ieuan Wyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Laura Anne (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
Law, Peter (Llafur – Labour)
Lewis, Huw (Llafur – Labour)
Lloyd, David (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Lloyd, Val (Llafur – Labour)
Marek, John (Annibynnol – Independent)
Melding, David (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
Mewies, Sandy (Llafur – Labour)
Morgan, Jonathan (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
Morgan, Rhodri (Llafur – Labour)
Neagle, Lynne (Llafur – Labour)
Pugh, Alun (Llafur – Labour)
Randerson, Jenny (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Ryder, Janet (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Sargeant, Carl (Llafur – Labour)
Sinclair, Karen (Llafur – Labour)
Thomas, Catherine (Llafur – Labour)
Thomas, Gwenda (Llafur – Labour)
Thomas, Owen John (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Thomas, Rhodri Glyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Williams, Brynle (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
Williams, Kirsty (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Wood, Leanne (Plaid Cymru – The Party of Wales)